# Lefel 2

# Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

## Ymarfer Prawf Dewis Lluosog
## Uned 003

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

21. Beth yw prif bwrpas disgrifiad swydd i'r gweithiwr cyflogedig?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Amlinellu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad | |
| (b) | Amlinellu pwy sy'n gyfrifol am gwblhau dyletswyddau penodol | |
| (c) | Amlinellu disgwyliadau a chyfyngiadau *(expectations and limitations)* dyletswyddau a chyfrifoldebau yr unigolyn ei hun | |
| (ch) | Amlinellu rolau swydd er mwyn atal gwrthdaro a straen yn yr amgylchedd gwaith | |

22. Mae aelod newydd o staff wedi dechrau gweithio mewn lleoliad gofal plant. Yn y lleoliad, maen nhw'n gofyn iddo ddarllen polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. Pam mae'n bwysig iawn i'r aelod o staff wneud hyn?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Er mwyn i'r rheolwr allu llofnodi ei waith papur sefydlu | |
| (b) | Er mwyn iddo allu llofnodi ei gontract cyflogaeth | |
| (c) | Er mwyn iddo wybod sut dylai gyflawni ei rôl | |
| (ch) | Er mwyn iddo fod yn ymwybodol o'i gyflog a'i hawl i wyliau | |

23. Pam mae trefniadau 'gweithio amlasiantaethol' yn bwysig?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Er mwyn dangos gwaith tîm effeithiol ac effeithlon yn y lleoliad | |
| (b) | Er mwyn darparu gofal di-dor i'r plant sy'n mynd i'r lleoliad | |
| (c) | Er mwyn cael canlyniadau cyflymach i bob plentyn sy'n mynd i'r lleoliad | |
| (ch) | Er mwyn galluogi gweithwyr gofal plant i rannu ymarfer da o fewn y tîm | |

24. Pa un o'r canlynol sy'n cyfeirio at ymdrin â gwybodaeth yn ddiogel, gan gynnwys storio, cofnodi, cadw cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 | |
| (b) | Deddf Iechyd a Diogelwch 1974 | |
| (c) | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | |
| (ch) | Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 | |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

25. Pa ddull sy'n cael ei ystyried y dull mwyaf diogel ar gyfer storio gwybodaeth am blant a staff mewn lleoliad gofal plant?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Ar ffurf electronig ar gyfrifiadur wedi'i ddiogelu â chyfrinair | |
| (b) | Copïau papur mewn ffeil blwch mewn swyddfa | |
| (c) | Ar ffurf electronig ar ddyfais storio sy'n gallu cael ei thynnu | |
| (ch) | Copïau papur mewn ffeil blwch yn ystafell y staff | |

26. Mae aelod o'r staff wedi cyfeirio at blentyn yn y lleoliad ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd hyn yn cael ei ystyried fel:

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Gwall dilys a mater disgyblu | |
| (b) | Mater disgyblu a mater cyfrinachedd | |
| (c) | Mater diogelu data a gwall cyffredinol | |
| (ch) | Gwall dilys a mater cyfrinachedd | |

27. Beth yw **prif** bwrpas Safonau'r Gymraeg 2018?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Sicrhau dull gweithredu amlddiwylliannol *(multicultural)* ym mhob lleoliad | |
| (b) | Gwneud pob plentyn sy'n mynd i leoliadau meithrin yng Nghymru yn ddwyieithog | |
| (c) | Hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob lleoliad | |
| (ch) | Annog mwy o blant i fynd i leoliadau cyfrwng Cymraeg | |

28. Pa un o'r canlynol sy'n cynnig y disgrifiad **gorau** o bwrpas sesiynau goruchwylio ac arfarnu?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Cyfle i'r rheolwyr adolygu cynnydd eu staff a chynllunio ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus pellach | |
| (b) | Cyfle i aelodau'r staff ofyn cwestiynau am eu hawl i wyliau a chyfleoedd i gael dyrchafiad | |
| (c) | Cyfle i drafod plant sy'n wynebu anawsterau yn y lleoliad a gweithdrefnau newydd i roi cynnig arnynt | |
| (ch) | Cyfle i'r rheolwyr a'r staff gydweithio i ddatblygu'r staff ac i drafod unrhyw faterion mae angen ymdrin â nhw | |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.